# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Gwaharddiad ar gyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol*

## 3 Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig: pŵer i ddiwygio

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r Atodlen—

(a) i ychwanegu cynnyrch at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1, neu i ddileu cynnyrch o'r golofn honno;

(b) i ychwanegu esemptiad at golofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1, neu i ddileu esemptiad o'r golofn honno, neu i ddiwygio esemptiad yn y golofn honno;

(c) i ychwanegu diffiniad at baragraff 2, neu i ddileu diffiniad o'r paragraff hwnnw, neu i ddiwygio diffiniad yn y paragraff hwnnw.

(2) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) awdurdodau lleol;

(b) Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ymwneud â hybu diogelu'r amgylchedd yng Nghymru;

(c) y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr neu gyflenwyr cynhyrchion plastig untro yng Nghymru;

(d) y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodwedd warchodedig o fewn yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), ac y gall y rheoliadau gael effaith benodol arnynt am y rheswm hwnnw;

(e) y personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 mewn grym ar 7.6.2023, gweler **a. 22(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Adran 3.